**<u>Cofnodion o gyfarfod arbennig o Gyngor Cymuned Llanrug a gynhaliwyd am 7:00 y.h. Nos Fercher 14 o Dachwedd 2018 yn Y Sefydliad Coffa, Llanrug i drafod y materion a grybwyllir isod.</u>**

**<u>Presennol:</u>** Y Cynghorwyr Haf Williams (Cadeirydd), Avril Jones (Is-gadeirydd), Llywelyn Williams, Alan Pritchard, Cemlyn Jones, Phil Roberts, Goronwy Hughes, Hefin Jones.

**<u>Ymddiheuriadau:</u>** Y Cynghorwyr Martin Jones, Rhys Parry, Clifford Williams, Beca Brown, Meirwen Lloyd, Richard Robinson

**<u>Hefyd yn bresennol:</u>** Y Cynghorydd Charles Jones (aelod Cyngor Gwynedd dros Llanrug).

**<u>Clerc:</u>** Meirion Jones

**284. Croeso gan y Cadeirydd**

Estynnwyd croesi i bawb i'r cyfarfod arbennig yma gan y Cadeirydd a diolchodd i bawb am droi fyny.

**285. Derbyn ymddiheuriadau.**

Derbyniwyd yr ymddiheuriadau fel a nodwyd uchod

**286. Datgan buddiant personol.**

Rhain i'w datgelu fel yn briodol

**287. Cais Cynllunio**

**Rhif Cyfeirnod Cais Cynllunio:** C18/0942/23/LL

**leoliad y Safle:** Tir Cae'r Eglwys, Ffordd Llanberis, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd, LL554JA

**Dyddiad Cofrestru:** 16-Hydref-2018

**Math o Gais:** Llawn - Cynllunio

**Ward:** Llanrug

**Cymuned:** Llanrug

**Bwriad:** Codi 7 byngalo ar wahân (gan gynnwys uned fforddiadwy), 2 byngalo pâr, mynedfa newydd a gwaith cysylltiedig (cynllun diwygiedig i'r hyn a thynnwyd yn ôl o dan cais rhif C18/0132/23/LL

**Statws:** Cais wedi cofrestru

Derbyniwyd adroddiad ar lafar gan y Cynghorydd Charles Jones am y cais yma ac fe eglurodd gefndir y cynllun. Bydd yr aelodau yn cofio fod y cais blaenorol wedi ei gyflwyno i godi 9 o dai ond fe dynnwyd y cais yma yn ôl,

Mae'r cais yma wedi ei newid i adeiladu byngalos ac fod hyn yn cyd fynd a cais y Cyngor Cymuned yn y gorffennol am fwy o fyngalos yn y pentref.

Noddwyd fod angen rhoi sylw ar 4 pwynt yn y cais sef:-

a) Edrych ar drefn parcio ar blot 4;
b) Llwybr troed i Ffordd yr Orsaf nodwyd nad oedd y datblygwr yn mynd i wneud hyn;
c) Plot 7 – angen sicrhad na fydd adeilad yn cael ei adeiladu ar y tir ble mae'r adroddiad yn cyfeirio na ellir adeiladu annedd arno.
d) Nodwyd fod byngalos yn dderbyniol.

**Penderfynwyd:** Dim gwrthwynebiad i'r cais gan nodi'r pedwar pwynt uchod.

Arwyddwyd:

Cadeirydd: Dyddiad: